



Angela Church

Pennaeth Cynadleddau ac Arlwyo

Gorffennaf 2016

Bwriad y strategaeth a chynllun gweithredu cryno hwn yw rhoi'r diweddaraf i Grŵp Tasg Cynaliadwyedd y Brifysgol am statws a chynnydd Polisi Bwyd Cynaliadwy'r Gwasanaeth Arlwyo. Bwriedir hefyd adrodd ar faterion perthnasol eraill.

Cefndir

Ymrwymodd Gwasanaethau Masnachol i bolisi bwyd cynaliadwy ffurfiol yn gyntaf yn 2010, i ffurfioli'r ymrwymadau ac arfer da oedd eisoes mewn lle ganddynt. Nodwyd hyn gyntaf yn y Strategaeth Arlwyo ac yna'i gyhoeddi ar wefan y brifysgol.

Mesurau a Pherfformiad

Nodwyd y targedau canlynol.

- Sicrhau bod mwyfwy o gynnyrch tymhorol ar gael yn ein bwydlenni
- Cynnig mwyfwy o bysgod o restr MCS "Pysgod i'w Bwyta"
- Cynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol yn ein bwydlenni
- Sicrhau bod nwyddau Masnach Deg ar gael yn ehangach ar draws y brifysgol
- Lleihau cyfanswm y gwastraff arlwyo sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi
- Gweithio gyda'n cyflenwyr i leihau cyfanswm y deunydd pecynnu a ddefnyddir

Cynnydd yn erbyn y targedau hyn

- Sicrhau bod mwyfwy o gynnyrch tymhorol ar gael yn ein bwydlenni
- Cynnig mwyfwy o bysgod o restr MCS "Pysgod i'w Bwyta"
- Cynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol yn ein bwydlenni

Yn y flwyddyn 2015 / 2016 agorwyd Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio sy'n cynnwys bar theatr, bwyty, siop goffi a siop prydau parod. Golyga hyn fod cyfanswm o 13 o ganolfannau arlwygo yn y Brifysgol erbyn hyn.

Bydd bwyty Gorad yn gweithio mewn dull tebyg i lolfa'r Teras ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau gyda'r fwydlen yn cael ei newid 3 neu 4 gwaith y flwyddyn i ddefnyddio cymaint â phosib o gynnyrch tymhorol. Mae llyisiau tymhorol ar gael ar bob adeg fel saig ychwanegol a daw nifer fawr o brydau gyda salad / dail tymhorol.

Mae system tiliau electronig wedi cael ei chyflwyno bellach ac felly erbyn Gorffennaf 2017 rhagwelir y budd modd adrodd ar gyfanswm gwerthiant pysgod cynaliadwy, cynnyrch tymhorol a chynnyrch lleol ar bob bwydlen.

Mae'r cynlluniau a fwriedir ar gyfer 2016 yn cynnwys cais am drwyddedu MSC.

- Sicrhau bod nwyddau Masnach Deg ar gael yn ehangach ar draws y brifysgol

Mae'r gwasanaeth arlwygo wedi cynnal ei ymrwymiad i weini coffi Masnach Deg yn unig yn ei holl ganolfannau. Ceir canran uchel o gynhyrchion Masnach Deg yn yr ystod o felysion a chynnyrch popty yn y canolfannau arlwygo. Mae'r cynnydd hwn wedi arwain at dwf yng

ngwerthiant cynnyrch Masnach Deg blwyddyn ar ôl blwyddyn. Unwaith eto, erbyn 2017 bydd yn bosibl cymharu data o un flwyddyn i'r llall.

Cyflwynwyd 'brand stryd fawr' i ehangu'r dewis i fyfyrwyr ar y campws. Dewiswyd brand 'Starbucks' am ei fod yn defnyddio cynnyrch Masnach Deg.

Gwerthwyd cyfanswm o ddiodydd Masnach Deg gwerth £178,821 dros y cyfnod Awst 2015 at Orffennaf 2016.

Yn ogystal â'r bwyd, mae holl ddillad brand y brifysgol a werthir yn y siop i fyfyrwyr ar gampws y Ffriddoedd yn gynnyrch Masnach Deg. Mae hynny wedi cael cefnogaeth dda iawn gan fyfyrwyr. Roedd gwerthiant dillad Masnach Deg yn ystod 2015-2016 yn £18,423.

Ymgwymerwyd ag ystod ehangach o weithgareddau yn ystod pythefnos Masnach Deg eleni mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a grwpiau cymunedol lleol.

'Ail-achredwyd' Statws Masnach Deg y Brifysgol yn Ebrill 2015.

- Lleihau cyfanswm y gwastraff arlwygo sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi
- Gweithio gyda'n cyflenwyr i leihau cyfanswm y deunydd pecynnu a ddefnyddir

Ni fu modd mesur y gwastraff arlwyo fel endid annibynnol i wastraff y brifysgol. Serch hynny, mae'r Gwasanaeth Arlwyo'n parhau i fod yn ymrwymedig i drefn ddiidoli gadarn o ran gwastraff sydd i'w ailgylchu.

TUCO: Mae'r consortiwm y mae'r gwasanaeth arlwyo yn prynu swm helaeth o'i gyflenwad ganddo yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliannau mewn cynaliadwyedd, lleihau pecynnu, lleihau ôl-troed carbon etc.

Cynnyrch Buarth

Dim ond wyau buarth a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Arlwyo ar gyfer eu bwydydd ar y campws.

Mae'r brifysgol wedi derbyn dyfarniad 'Wyau Da' sy'n cadarnhau hynny.

Mae'r ymrwymiad hwn yn estyn i bolisi o ran yr wyau a werthir yn y siopau, a gwariodd myfyrwyr £543.98 ar wyau buarth yn 2015/2016.

Lleihau Gwerthiant Dŵr Potel

Mae'r staff yn ein holl ganolfannau'n hapus i weini dŵr tap ar gais, ac mae hyn wedi cael ei estyn i'r busnes cynadleddau, gyda cheisiadau am ddŵr tap yn cynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Gweithio mewn partneriaeth â Bywyd ar y Campws



Yn 2015- 2016 cynhaliodd cogyddion Gwasanaethau Masnachol 4 dosbarth coginio i fyfyrwyr preswyl i annog yr arfer o goginio gartref gyda chynhwysion ffres. Cafodd y digwyddiadau hyn dderbyniad arbennig o dda gan fyfyrwyr a chânt eu hail gynnal yn 2016.